# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd yn y Ganolfan Nos Lun 8fed Gorffennaf 2019

Presennol: Henry Hughes, Sian Parri, Medwyn Jones, Gareth Jones, Seimon Glyn, Alan Hughes, Humphrey Williams, John Davies
Ymddiheuriadau: Richard Williams

1. Cadeiriwyd gan Sian Parri ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbyniwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**:

a. Archwyliad Allanol **-** Dywedodd y Clerc ei bod wedi anfon y dogfennau i'r BDO, ond heb gael ymateb eto.

b.Llwybyr ger Glan Dwr, Dinas – Dywedodd y Clerc iddi holi A. Pozzi, cafwyd cadarnhad ganddo nad yw'r llwybyr yma yn un sy'n gymwys i'w dorri.

c. Pryder am y lon rhwng Edern a Tudweiliog – anfonnodd y Clerc lythyr i'r adran Priffyrdd – cafwyd ateb gan A.Roberts Peiriannydd Ardal Dwyfor yn dweud fod y llythyr yn cael ei anfon ymlaen i'r Gwasanaeth Trafnidiaeth.

ch. Presenoldeb isel Cyngorwyr – Dywedodd y Clerc iddi gysylltu ac Un Llais Cymru am arweiniad. Cafwyd cadarnhad os nad yw Cynghorydd yn mynychu yr un cyfarfod mewn cyfnod o chewch mis, fod gan y Cyngor yr hawl i ofyn iddo/iddi ymddiswyddo. Ar gyngor Un Llais Cymru ysgrifennodd y Cadeirydd lythyr at bob Cynghorydd yn gofyn i bawb ymdrechu'n galetach i fynychu'r cyfarfodydd. Penderfynnwyd hefyd y dylid cael cofrestr, bydd hwn yn cael ei ddangos ym mhob cyfarfod.

d. Elusen John Edwards/Llain Fatw – Dywedodd y Cadeirydd fod cyfarfod wedi ei gynnal. Cafwyd ar ddeall fod Llain Fatw wedi ei gofrestru gan Cadw. Y cam nesaf yw ymuno'r ddwy elusen, ffurfio un elusen, ddefnyddio'r arian i'w adnewyddu ac yna ei osod ar rent i berson lleol. Bydd angen un 'trustee' o'r Cyngor Cymuned.

4. **Gohebiaethau:**

a. Darllennodd y Cadeirydd neges gan Llywodraeth Cymru yn ein gwybyddu y bydd biliau ardrethu toiledau cyhoeddus yn gostwng i sero o 1af Ebrill 2020. Mae gytundeb wedi ei wneud gyda'r Lion fod y cyhoedd yn cael defnyddio toiledau'r gwesty.

b. Derbynnwyd holiadur gan Owain Watkin Hughes – sut mae ail gartrefi yn effeithio ar gymunedau gwledig lleol – penderfynnwyd i'r Clerc anfon copi i'r Cynghorwyr ar ebost, ac bawb ei lenwi yn bersonnol

c. Cafwyd cadarnhad gan Mantell Gwynedd eu bod wedi ychwanegu gwybodaeth am Cyngor Cymdeithas Tudweiliog ar gronfa data Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

ch.Cafwyd negas gan Un Llais Cymru yn gwybyddu fod 'Social Care Wales' yn lansio gwobr newydd i gydnabod a dathlu gweithwyr gofal sy'n darparu gofal eithriadol trwy gyfrwng y Gymraeg.
Bydd y Clerc yn anfon yr ebost ymlaen i bob Cynghorydd
.

d. Lon Rhos y Llan, Tudweiliog – cafwyd negas gan Ceri Meredydd, Isfryn, Rhos y Llan, Tudweiliog yn datgan pryder am gyflwr y ffordd. Bydd y Clerc yn anfon llythyr at adran Priffyrdd.

dd. Derbynnwyd llythyr gan Gwasanaethau Cyfreithiol – Etholiadol, yn datgan fod pob awdurdod yn arolygu dosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio bob pedair blynedd. Bydd y clerc yn rhoi'r hysbyseb yn ffenest y Post fel fod cyfle i'r cyhoedd ymateb.

e. Derbynniodd y Clerc ebost gan Martyn Huws, yn gofyn os oes gan Cyngor Cymuned Tudweiliog fwriad i ddatgan cefnogaeth i'r ymgyrch ffurfio annibyniaeth i Gymru. Bydd y mater yn cael ei drafod eto ym mis Medi.

f. Cais cynllunio C19/0149/46/LL Congl y Cae, Llangwnnadl. Cafodd y Clerc wybod gan swyddog o'r Cyngor, fod y cais unedau gwyliau wedi ei wrthod. Bydd yr ymgeisydd yn apelio'r penderfynniad.

5. **Unrhyw fater arall**

a/ Dywedodd Humphrey Williams ei fod wedi derbyn cwyn gan drigolion Llaniestyn fod gor yrry gan tractorau drwy'r pentref. Bydd y Clerc yn cysylltu ac Iwan ap Trefor o'r adran Diogelwch Ffyrdd gan ei wahodd i'r cyfarfod nesaf i drafod y mater.

b. Dywedodd Humphrey Williams hefyd ei fod wedi derbyn cwyn fod gwartheg ar y lon rhwng Treferwin a Nyffryn Dinas yn beryglus ac y dylai fod arwydd yn cael ei osod yn rhybuddio'r cerbydau. Penderfynnwyd i godi'r pryder yma hefyd hefo Iwan ap Trefor

CYNHELIR Y CTFARFOD NESAF AR 9fed Medi 2019
YNG NGHANOLFAN TUDWEILIOG AM 7.15yh